CABINET

COFNODION Y CYFARFOD O BELL A GYNHALIWYD DRWY MICROSOFT TEAMS
DDYDD MERCHER, 13 HYDREF 2021 AM 10.30AM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd P. Marsden (Arweinydd) - Cadeirydd

Cynghorwyr:

S. Cook (Gofal Cymdeithasol), N. George (Gwastraff, Diogelwch y Cyhoedd a Strydoedd), C. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), L. Phipps (Tai), J. Pritchard (Isadeiledd ac Eiddo), E. Stenner (Perfformiad, yr Economi a Menter), A. Whitcombe (Cynaliadwyedd, Cynllunio a'r Fflyd) ac R. Whiting (Dysgu a Hamdden).

Ynghyd â:

D. Street (Prif Weithredwr Dros Dro) R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), G. Jenkins (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro'r Gwasanaethau Cymdeithasol) ac M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol – yr Economi a'r Amgylchedd).

Hefyd yn Bresennol:

R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), S. Richards (Pennaeth Cynllunio Addysg a Strategaeth), A. West (Rheolwr Derbyniadau a Gwaharddiadau Ysgolion yr 21ain Ganrif), S. Harris (Pennaeth Cyllid a Swyddog Adran 151), J. Carpenter (Rheolwr Cyllid, Refeniw), R. Hartshorn (Pennaeth Diogelwch y Cyhoedd, Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden), A. Dallimore (Rheolwr Gwasanaethau Adfywio) M. Harris (Swyddog Cymorth Gwasanaethau Pwyllgor/Chauffeur) ac E. Sullivan (Uwch-swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

A:

Y Cynghorydd C. Mann a'r Cynghorydd P. Leonard

RECORDIO A THREFNIADAU PLEIDLEISIO

Gwnaeth yr Arweinydd atgoffa'r rhai a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffilmio ond na fyddai'n cael ei ffrydio'n fyw. Serch hynny, byddai recordiad ar gael ar ôl y cyfarfod ar wefan y Cyngor – Cliciwch Yma i'w Weld. Esboniodd y byddai penderfyniadau yn cael eu gwneud drwy Microsoft Forms.

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan C. Harrhy (Prif Weithredwr)

2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Gwnaeth y Cynghorwyr J. Pritchard ac S. Cook ddatgan buddiant personol mewn perthynas ag Eitem Rhif 6 ar yr Agenda – Band B y Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif – Diweddariad ar Gam 2 am eu bod yn Llywodraethwyr a Benodwyd gan yr Awdurdod Lleol yn Ysgol Gynradd Plasyfelin. Gan mai buddiant personol yn unig oedd hwn, nid oedd angen iddynt adael y cyfarfod a gallent gymryd rhan lawn yn y ddadl a'r bleidlais.

Gwnaeth y Cynghorydd M. Whiting ddatgan buddiant personol a rhagfarnus mewn perthynas ag Eitem Rhif 9 ar yr Agenda - Canlyniad Ymgynghoriad Cyhoeddus ar Sefydlu Neuadd Gymunedol Arfaethedig yn Nhŷ Sign, Rhisga am ei fod yn aelod o Bwyllgor Canolfan Gymunedol Channel View ac felly byddai'n gadael y cyfarfod pan fyddai'r mater yn cael ei ystyried ac ni fyddai'n cymryd rhan yn y ddadl na'r bleidlais.

Gwnaeth y Cynghorydd N. George ddatgan buddiant personol a rhagfarnus mewn perthynas ag Eitem Rhif 9 ar yr Agenda - Canlyniad Ymgynghoriad Cyhoeddus ar Sefydlu Neuadd Gymunedol Arfaethedig yn Nhŷ Sign, Rhisga am ei fod yn aelod o Bwyllgor Canolfan Gymunedol Channel View yn ogystal â Grwpiau Cymunedol eraill yn yr ardal ac felly byddai'n gadael y cyfarfod pan fyddai'r mater yn cael ei ystyried ac ni fyddai'n cymryd rhan yn y ddadl na'r bleidlais.

3. CABINET – 29 MEDI 2021

PENDERFYNWYD y dylai cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Medi 2021 gael eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

4. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET – I'W NODI

Cafodd y Cabinet gopi o Flaenraglen Waith y Cabinet, a oedd yn cynnwys yr adroddiadau a gynlluniwyd tan 8 Rhagfyr 2021. Atgoffwyd Aelodau fod Blaenraglen Waith y Cabinet yn ddogfen weithio ac y gallai newid.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid nodi'r Flaenraglen Waith. Drwy godi dwylo, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD y dylid nodi Blaenraglen Waith y Cabinet.

5. PARCIO CEIR YN Y TWYN, CAERFFILI A CHEFN Y STRYD FAWR, COED DUON

Ystyriwyd yr adroddiad a roddodd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet mewn perthynas â defnyddio meysydd parcio yn y Twyn, Caerffili a chefn y Stryd Fawr, Coed Duon ac amlinellwyd y broses ofynnol ar gyfer rhoi unrhyw newidiadau ar waith mewn perthynas â'r trefniadau i roi tocynnau/codi tâl yn y lleoliadau hyn.

Cyfeiriwyd y Cabinet at Adran 5.6 o'r adroddiad a oedd yn manylu ar Opsiwn 1, Adran 5.7 o'r adroddiad a oedd yn manylu ar Opsiwn 2 ac Adran 5.8 o'r adroddiad a oedd yn manylu ar Opsiwn 3, ac ystyriodd yr Aelodau y manteision a'r anfanteision yn briodol.

Amlinellodd yr Aelod o'r Cabinet ei ymdrechion i gynnwys Aelodau'r Ward Leol mewn perthynas â'r materion yn yr adroddiad a diolchodd i'r Cynghorydd Kevin Etheridge a'r Cynghorydd Andrew Farina-Childs am gyfarfod ag ef.

Ar ôl ystyried a thrafod, cafodd argymhelliad ychwanegol ei gynnig a'i eilio yn 3.2 o'r adroddiad i ddarllen fel a ganlyn; cytuno ar wneud gwaith i hyrwyddo meysydd parcio nas defnyddir ger canol trefi, megis Crescent Road, er mwyn cynyddu nifer yr ymwelwyr â chanol trefi. Cytunwyd yn unfrydol ar hyn drwy bleidlais electronig.

PENDERFYNWYD ar y canlynol, yn amodol ar gynnwys yr argymhelliad ychwanegol ac am y rhesymau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddog: -

3.1 Bydd y trefniadau i barcio am ddim dros dro, y cytunwyd arnynt ar 1 Medi 2021, yn parhau a chaiff unrhyw newidiadau i dariffau neu docynnau yn y Twyn, Caerffili, a'r Stryd Fawr, Coed Duon, eu hystyried fel rhan o'r grŵp gorchwyl a gorffen Craffu trawsbleidiol ar ddyfodol ffioedd parcio ceir.

3.2 Cytuno ar wneud gwaith i hyrwyddo meysydd parcio nas defnyddir ger canol trefi, megis Crescent Road, er mwyn cynyddu nifer yr ymwelwyr â chanol trefi.

6. BAND B Y RHAGLEN YSGOLION A CHOLEGAU AR GYFER YR 21AIN GANRIF – DIWEDDARIAD AR GAM 2

Datganodd y Cynghorydd J. Pritchard a'r Cynghorydd S. Cook fuddiant personol yn unig am eu bod yn Llywodraethwyr a Benodwyd gan yr Awdurdod Lleol yn Ysgol Gynradd Plasyfelin. O ganlyniad, nid oedd angen iddynt adael y cyfarfod a gallent gymryd rhan lawn yn y ddadl a'r bleidlais.

Ystyriwyd adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am Gam 2 Band B y Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif ac yn ceisio cymeradwyaeth i fwrw ymlaen i ymgynghori mewn perthynas â Phrosiectau Cam 2 a oedd yn cynnwys uno Ysgol Iau Llancaeach ac Ysgol Fabanod Llanfabon, codi ysgol newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Plasyfelin a sefydlu Canolfan newydd ar gyfer Dysgwyr Agored i Niwed (Uned Cyfeirio Disgyblion). Hefyd, gofynnwyd i'r Cabinet gymeradwyo'r £4.716m a glustnodwyd o Gronfa Wrth Gefn Llunio Lleoedd yr Awdurdod mewn perthynas â chyfraniad yr Awdurdod at Gam 2 o Fand B y Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif.

Amlinellwyd nodau allweddol Band B rhaglen fuddsoddi Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif, a chafodd y cynlluniau eu nodi'n fanwl. Croesawodd y Cabinet yr adroddiad a'r cynigion a chofnododd ei ddiolch i Lisa Thomas, Andrea West a Sue Richards am eu gwaith caled.

Nododd y Cabinet fod yr adroddiad wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu Addysg yn ei gyfarfod ar 21 Medi 2021 a chafodd yr Aelodau eu cyfeirio at adran 10.2 o'r adroddiad a oedd yn nodi'r sylwadau a wnaed. Cadarnhawyd bod y Pwyllgor Craffu Addysg wedi cefnogi'r cynigion yn unfrydol.

Cadarnhaodd yr Aelodau y byddai'r cynigion mewn perthynas ag Ysgol Gynradd Plasyfelin yn cael eu croesawu'n frwd gan y Gymuned a'r Llywodraethwyr. Cyfeiriwyd at y cyfleuster chwaraeon amlddefnydd sy'n rhan o'r cynigion y gallai'r ysgol a'r gymuned ehangach ei ddefnyddio am flynyddoedd i ddod.

Nododd swyddogion y ffordd roedd y Cronfeydd Llunio Lleoedd yn cael eu defnyddio i ddatblygu prosiectau sylweddol fel y rhain a'r cyfleusterau seibiant newydd a gaiff eu hystyried yn nes ymlaen ar yr agenda, sy'n cyffwrdd â sawl cyfarwyddiaeth gan gynnig manteision hirdymor i drigolion a chymunedau.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad. Drwy bleidlais electronig, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD gwneud y canlynol am y rhesymau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddog: -

a) Nodi cynnwys yr adroddiad hwn.

b) Cymeradwyo'r argymhelliad i fwrw ymlaen â'r ymgynghoriad ar y cynnig i uno Ysgol Iau Llancaeach ac Ysgol Fabanod Llanfabon yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 Llywodraeth Cymru.

c) Cymeradwyo'r broses ymgynghori a amlinellir yn 5.4.3 a 5.5.4 mewn perthynas ag Ysgol Gynradd Plasyfelin a'r Ganolfan i Ddysgwyr Agored i Niwed nad ydynt yn ddarostyngedig i ofynion statudol Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 Llywodraeth Cymru.

d) Cymeradwyo'r cynnig i glustnodi £4.716m o Gronfa Wrth Gefn Llunio Lleoedd yr Awdurdod mewn perthynas â chyfraniad ariannol yr Awdurdod at Gam 2 o Fand B y Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif.

7. DILEU DYLEDION DROS £20,000 – ÔL-DDYLEDION ARDRETHI BUSNES AR GYFER CWMNÏAU CYFYNGEDIG.

Ystyriwyd yr adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddileu dyledion dau gwmni cyfyngedig lle, ym mhob achos, roedd y gwerthoedd cyfanredol fesul busnes yn fwy nag £20,000.

Sicrhawyd y Cabinet y gwnaed pob ymdrech i adennill y dyledion dan sylw, ond nid oedd modd eu hadennill ac nid oedd ateb cyfreithiol pellach yn bodoli.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhelliad yn adroddiad y Swyddog a chytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy bleidlais electronig.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau sydd wedi'u nodi yn adroddiad y Swyddog, y dylid dileu'r dyledion ardrethi busnes a nodir ym mharagraffau 5.2.1 i 5.3.9 am nad oes modd eu hadennill.

8. CYNNIG I DDATBLYGU DAU GYFLEUSTER SEIBIANT NEWYDD

Ystyriwyd yr adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer y cynnig i ddatblygu dau gyfleuster newydd a adeiladir at y diben ym Mhontllan-fraith, un i oedolion ac un i blant.

Nododd y Cabinet fod y tri adeilad seibiant presennol yn dechrau mynd yn anaddas at y diben er mwyn diwallu anghenion cynyddol y plant a'r oedolion sy'n eu mynychu. Hefyd, roedd nifer sylweddol o blant ac oedolion sydd ag awtistiaeth ac ymddygiadau cysylltiedig y mae angen llawer mwy o le arnynt na'r hyn a gynigir yn yr adeiladau a'r gerddi presennol. Roedd safle hen Ysgol Gyfun Pontllan-fraith wedi dod ar gael a byddai'n ddelfrydol cydleoli'r gwasanaeth hwn mewn dau dŷ ar wahân.

Cadarnhaodd swyddogion gapasiti'r cyfleusterau newydd ac esbonio'r rhesymau dros y niferoedd y cyfeirir atynt yn yr adroddiad. Nodwyd ymhellach y byddai pawb yn gallu mwynhau'r ardaloedd chwarae a'r gerddi diogel dynodedig ac roedd posibilrwydd y byddai safle Tŷ Gwilym yn cael ei ddefnyddio unwaith eto fel llety arhosiad estynedig mewn argyfwng ar gyfer plant ag anableddau.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad. Drwy bleidlais electronig, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD gwneud y canlynol am y rhesymau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddog: -

1. Cytuno ar y cynnig i ddatblygu dau gyfleuster seibiant newydd, un i oedolion ac un i blant, wedi'u cydleoli ym Mhontllan-fraith.

2. Cefnogi'r cynnig i glustnodi £1,001,436 pellach ar gyfer y prosiect o gronfeydd wrth gefn y Gwasanaethau Cymdeithasol.

9. CANLYNIAD YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS AR SEFYDLU NEUADD GYMUNEDOL ARFAETHEDIG YN NHŶ SIGN, RHISGA

Gan eu bod wedi datgan buddiant personol a rhagfarnus, gadawodd y Cynghorydd N. George a'r Cynghorydd R. Whiting y cyfarfod ac nid oeddent yn bresennol pan gafodd y mater ei drafod ac ni wnaethant gymryd rhan yn y bleidlais na'r ddadl.

Ystyriwyd yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Cabinet am ganlyniad ymarfer ymgynghori cyhoeddus mewn perthynas â chynnig a gyflwynwyd gan Eglwys Gymunedol Agapé, Tŷ Sign (ACCTS) i ddatblygu Neuadd Gymunedol newydd ar dir ar Holly Road, Tŷ Sign.

Nododd y Cabinet fod yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus yn adlewyrchu llawer o wrthwynebiad i'r cynnig, gyda 91% o'r rhai a fynegodd farn yn anghytuno â'r cynnig.

Anerchodd y Cynghorydd P. Leonard, yr Aelod Ward Lleol, y Cabinet ar ran trigolion gan wrthwynebu'r cynnig. Nododd bwysigrwydd y cae yn y gymuned ac mor bwysig yw ei gadw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Dywedodd y Cynghorydd Leonard mai dyma'r unig ardal werdd wastad yng nghalon y gymuned ac y caiff ei chydnabod fel man diogel yn yr awyr agored i'r gymuned ei fwynhau. Yna amlinellodd gynlluniau'r gymuned ar gyfer yr ardal, gan gynnwys rhodfa, coed, gwelyau blodau a meinciau picnic, a nododd y gwnaed cais i Gronfa Ymrymuso'r Gymuned ar gyfer hyn. Gofynnodd y Cynghorydd Leonard i'r Cabinet wrando ar farn y 91% o ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu'r cynigion.

Cydnabu'r Cabinet fod cynlluniau'r gymuned ar gyfer yr ardal yn enghraifft dda o brosiect a allai gysylltu â Chronfa Ymrymuso'r Gymuned.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhelliad yn adroddiad y Swyddog a chytunodd y rhai a oedd yn bresennol ar hyn yn unfrydol drwy gadarnhad ar lafar a phleidlais electronig.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddog ac o ystyried canlyniad yr ymgynghoriad, ac yn unol â dymuniadau'r gymuned, **peidio â chefnogi'r** cais gan ACCTS ac y dylid awdurdodi Swyddogion i hysbysu ACCTS fod y cais i brydlesu'r tir dan sylw wedi cael ei wrthod.

10. BWRDD ADFYWIO – CYNIGION PROSIECTAU

Ystyriwyd adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer dyrannu £150k o gyllid o'r Gronfa Datblygu Prosiectau Adfywio er mwyn penodi Tîm Ymgynghori Amlddisgyblaethol i gefnogi staff y Cyngor a hwyluso'r gwaith o ddarparu Cynllun Tref Caerffili 2035.

Rhoddwyd gwybod i'r Cabinet y byddai arian cyfatebol yn cael ei ddarparu i gyd-fynd â'r £150k arfaethedig a rhagwelwyd y byddai'r tîm o ymgynghorwyr allanol a benodwyd yn helpu Swyddogion i ymdrin â gofynion technegol penodol nad ydynt ar gael yn uniongyrchol gan dimau mewnol neu lle nad oedd adnoddau ar gael i fodloni amserlenni gofynnol cyllid a gellid galw arnynt ar gyfer cynlluniau llunio lleoedd a phrosiectau mawr eraill. Nodwyd bod Cynllun Tref Caerffili 2035 yn cynnwys 60 o brosiectau i'w rhoi ar

waith a byddai'r penodiadau hyn yn hanfodol er mwyn gwneud cynnydd.

Ar ôl ystyried, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhelliad yn adroddiad y Swyddog a chytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy bleidlais electronig.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddog, y dylid clustnodi £150k o Gronfa Datblygu'r Bwrdd Prosiect Adfywio er mwyn caffael Tîm o Ymgynghorwyr Amlddisgyblaethol am gyfnod o hyd at dair blynedd. Bydd y tîm a benodir yn cefnogi staff y Cyngor ac yn hwyluso'r gwaith o gyflawni Cynllun Tref Caerffili 2035.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.20am

Cymeradwywyd a llofnodwyd fel cofnod cywir, yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Hydref 2021.

_____

CADEIRYDD